# Polisi Pobl a Allai Fod yn Beryglus (PAB)

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r polisi:** | ***Gweithdrefnau ar gyfer trin unigolion a allai fod yn beryglus yn gywir.*** |
| **Rhif y polisi:** | ***008/2021*** |
| **Rheoli fersiynau:** | ***Fersiwn: 2.0***<br>***Dyddiad:*** *20/09/2022*<br>***Awdur:*** *DS* [redacted]<br>***Rhesymwaith:*** *Adolygiad blynyddol*<br>***Mae rheolydd fersiwn llawn ar ddiwedd y ddogfen.*** |
| **Dyddiad gweithredu:** | ***23/02/2021*** |
| **Dyddiad adolygu:** | ***20/09/2024*** |
| **Perchennog/cyswllt:** | ***Ditectif Rhingyll*** [redacted] |
| **Cymeradwyaeth** | ***Ditectif Prif Arolygydd*** [redacted] ***(Arweinydd Strategol Uned Rheoli Troseddwyr)***<br>***Dyddiad cymeradwyo: 02/09/2022*** |
| **Cymeradwyaeth derfynol** | ***Ditectif Prif Arolygydd*** [redacted] ***(Arweinydd Strategol Uned Rheoli Troseddwyr)***<br>***Dyddiad cymeradwyo: 02/09/2022*** |
| **Ymgynghori a Chymeradwyo:** | ***Gwasanaethau Cyfreithiol***<br>***Ditectif Prif Arolygydd*** [redacted] |
| **Fersiwn Saesneg** | ***Oes*** |

# 1. Datganiad Polisi

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo'n llwyr i amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr peryglus sy'n cyflwyno perygl o niwed difrifol. Mae cyflenwi'r flaenoriaeth blismona hon yn llwyddiannus yn hanfodol ar gyfer cynnal a gwella hyder y cyhoedd yn ein heddlu a gyda'n hasiantaethau partner.

Nid yw diogelu'r cyhoedd yn rhywbeth y gallwn gyflawni ar ben ein hun. Nid oes gan yr un asiantaeth unigol y gallu i amddiffyn y cyhoedd yn ei gyfanrwydd ac mae partneriaethau cryf ac effeithiol gydag asiantaethau eraill yn allweddol ar gyfer amddiffyn cymunedau Dyfed-Powys.

Nod y polisi hwn yw sicrhau bod gan Heddlu Dyfed-Powys ymagwedd gyson a phroffesiynol tuag at reoli pobl a allai fod yn beryglus. Mae'r diben hwn wedi'i unioni ag Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer rheoli pobl a allai fod yn beryglus. Bydd y polisi hwn, ynghyd â dogfennau canllaw, ar gael ar safle mewnrwyd yr heddlu er mwyn cynorthwyo staff i ddeall eu cyfrifoldebau o ran adnabod risg yn gynnar a rheolaeth barhaus troseddwyr sy'n cyflwyno risg uniongyrchol o achosi niwed difrifol. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Dyfed-Powys yn adnabod pobl yn ein cymuned a allai fod yn beryglus ac yn rheoli'r unigolion hyn drwy ymagwedd amlasiantaeth wedi'i strwythuro.

Cyflawnir hyn drwy:

- Gyflwyno canllawiau mewn perthynas â rheoli pobl a allai fod yn beryglus sydd heb eu heuogfarnu.
- Sicrhau bod gwybodaeth allweddol ar gael ar gyfer swyddogion rheng flaen, gan ddiffinio dyletswyddau gweinyddol a fydd yn helpu Dyfed-Powys i gefnogi amcanion plismona allweddol yn glir.
- Cynorthwyo swyddogion i adnabod y peryglon a gyflwynir gan unigolion peryglus.
- Darparu ac ymateb i'r perygl a nodwyd drwy roi gweithdrefnau mewn grym ar gyfer rheoli pobl a allai fod yn beryglus tra'u bod nhw dal yn y gymuned.
- Sicrhau bod pobl a allai fod yn beryglus yn cael eu dal i gyfrif am eu gweithredoedd, lle bo'n briodol, drwy'r system cyfiawnder troseddol.
- Lleihau cyfleoedd i bobl a allai fod yn beryglus gyflawni gweithredoedd troseddol.

- Mabwysiadu ymagwedd amlasiantaeth ar gyfer rheoli pobl a allai fod yn beryglus yn gadarn, gan weithio mewn partneriaeth ar gyfer amddiffyn y cyhoedd, atal trosedd a gwella'r trefniadau monitro o gwmpas pobl a allai fod yn beryglus.
- Gwella faint o wybodaeth a rennir ac ansawdd y wybodaeth honno, adnabod perygl a gwaith partneriaeth.
- Rhaid i bob aelod staff sicrhau, wrth fabwysiadu'r polisi hwn, ac wrth arfer eu dyletswyddau dyddiol:

  (a) Eu bod yn dilyn proses benderfynu glir drwy fanylu eu hamcanion, gan asesu'r holl wybodaeth berthnasol a dewisiadau dichonadwy sydd ar gael, dogfennu penderfyniadau, ac adolygu canlyniadau;
  (b) Eu bod yn rhoi ystyriaeth ddyledus i lesiant, diogelwch, lles cyffredinol a hawliau dynol pob unigolyn;
  (c) Nad ydynt yn rhagfarnu'n anghyfiawn yn erbyn unrhyw unigolyn neu grwpiau o unigolion;

  (ch) Bod camau a gymerir yn gyfiawn a chymesur, ac mai dyna'r dewis lleiaf ymwthiol i'w ystyried ochr yn ochr â'r perygl a nodwyd.

**Mae'n berthnasol ar gyfer y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):** Holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau ac eiddo'r Heddlu a'u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.

# 2. Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer holl swyddogion a staff yr heddlu, a'i fwriad yw cefnogi rheolwyr, goruchwylwyr a swyddogion a staff yr heddlu i ymdrin yn effeithiol â holl agweddau asesu a rheoli'r peryglon a gyflwynir gan bobl a allai fod yn beryglus.

Er nad yw wedi'i ddiffinio mewn statud, diffinnir y term 'person a allai fod yn beryglus' (PAB) fel unigolyn sydd heb ei euogfarnu, na'i rybuddio, ar gyfer unrhyw drosedd berthnasol, ond sy'n ymddwyn mewn modd sy'n rhoi sail resymol dros gredu bod tebygolrwydd y bydd yn cyflawni trosedd neu droseddau a fydd yn achosi niwed difrifol.

Oherwydd eu diffiniad, nid yw pobl a allai fod yn beryglus yn syrthio o fewn Protocol Lleol Dyfed-Powys a'r ddogfen bolisi ar gyfer y broses Trefniadau Amlasiantaeth Er Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA). Does dim proses statudol neu fframwaith sy'n llywodraethu eu rheoli. Fodd bynnag, mae egwyddorion eu rheoli'n debyg ym mhob agwedd i reoli troseddwyr o fewn y broses MAPPA ac mae budd clir o ddefnyddio'r fframwaith hwn.

Mae'r gofyniad a'r awdurdod i reoli pobl a allai fod yn beryglus yn gorwedd yn y rhwymedigaethau cadarnhaol o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, fel yr ymgorfforir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Rhain yw Erthygl 2 (yr hawl i fywyd) ac Erthygl 3 (yr hawl i ryddid rhag artaith neu gosb neu driniaeth annynol neu ddiraddiol).

Oherwydd natur anstatudol y broses reoli hon, dylid dilyn materion gweithdrefnol ychwanegol ar gyfer pobl a allai fod yn beryglus ac mae dogfen ganllaw ar gael i gynorthwyo swyddogion i ddilyn y broses gywir.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i nodi a sicrhau bod cynllun rheoli risg cadarn mewn grym ar gyfer pobl a allai fod yn beryglus.

Bydd y polisi hwn ar gael i bob gweithiwr i ddilyn wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau, a bydd swyddogion yn derbyn canllaw gweithdrefnau lleol yn unol ag Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer rheoli Troseddwyr a Allai fod yn Beryglus.

Bydd pob gweithiwr yn dilyn egwyddorion y polisi hwn.

- Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio PAB fel rhywun nad yw'n gymwys i gael ei reoli o dan y broses Trefniadau Amlasiantaeth Er Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) ond sy'n ymddwyn mewn modd sy'n rhoi sail resymol dros gredu bod tebygolrwydd cyfredol y byddant yn cyflawni trosedd neu droseddau a fydd yn achosi niwed difrifol.

(a) Mae tebygolrwydd cyfredol yn golygu bod ***perygl uniongyrchol*** o niwed difrifol yn cael ei achosi. Mae'r digwyddiad posibl yn debygol o ddigwydd yn fuan a byddai'r effaith yn ddifrifol.

(b) Mae ***niwed difrifol*** yn golygu trosedd sy'n bygwth bywyd a/neu sy'n drawmatig, a gellid disgwyl i adfer corfforol neu seicolegol fod yn anodd neu'n amhosibl.

(c) Diffinnir troseddau treisgar a throseddau rhywiol y cydnabu eu bod yn bodloni'r trothwy ar gyfer niwed difrifol yn Adran 15 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Gall honiadau bod rhywun wedi cyflawni trosedd o'r fath neu'n arddangos ymddygiad sy'n dangos ei fod yn debygol iawn o gyflawni trosedd o'r fath ddynodi y gellid ystyried rhywun yn berson a allai fod yn beryglus.

- Gellid adnabod PAB drwy amryw o ddulliau, er enghraifft:

(a) Swyddog heddlu neu aelod staff

(b) Unigolyn yr amheuir ei fod wedi cyflawni trosedd atodlen 15

(c) Mae'r unigolyn yn bodloni dosbarthiad

(ch) Mae'r cydlynydd MAPPA yn cyfeirio achos lle mae'r unigolyn wedi'i gyfeirio at MAPPA ond sydd ddim yn gymwys ar gyfer MAPPA, fodd bynnag, mae'n bodloni meini prawf PAB

(d) Nid yw'r unigolyn yn destun MAPPA rhagor, ond mae'n bodloni meini prawf PAB

(dd) Mae asiantaeth arall yn cyfeirio unigolyn mae'n credu sy'n bodloni meini prawf PAB

- Asesu, sgrinio a chytuno ar gynllun rheoli ar gyfer pob PAB a nodwyd wedi'i ddilyn gan ddatgofrestru os ystyrir nad yw'r unigolyn yn cael ei ystyried yn berson a allai fod yn beryglus mwyach.

Mae methu ag adnabod ac ymdrin yn effeithiol â phobl a allai fod yn beryglus cyn gynted â phosibl yn cyflwyno perygl uwch o niwed i'r gymuned. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn trin rheoli troseddwyr o ddifri ac yn sicrhau bod darpariaethau monitro cadarn mewn grym ar gyfer rheoli unrhyw berygl a nodwyd o ran pob troseddwr yn llwyddiannus, gan gynnwys pobl a allai fod yn beryglus sy'n peri risg sylweddol i'n cymunedau.

Tra bod y weithdrefn hon yn darparu fframwaith ar gyfer nodi a rheoli pobl a allai fod yn beryglus, ni ddylai fod yn rhwystr rhag cymryd camau gweithredu sy'n ofynnol ar gyfer diogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol yn syth pan fydd yr amgylchiadau'n briodol.

# 3. Pwerau a Gofynion Polisi/Cyfreithiol

Diben y ddogfen hon yw darparu canllawiau ar gyfer personél yr heddlu ar Reoli Pobl a Allai Fod y yn Beryglus Sydd Heb eu Heuogfarnu.

Y sail gyfreithlon dros arfer y pwerau a'r dyletswyddau a amlinellir yn y polisi hwn yw:

- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

Mae Dyfed-Powys yn ystyried bod y gweithredoedd hyn yn ofynnol ar gyfer diogelu'r cyhoedd a chyfrannu at atal trosedd neu anhrefn; gwarchod y cyhoedd a gwarchod hawliau a rhyddidau eraill.

Bydd angen rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng unrhyw asiantaethau sy'n dal gwybodaeth berthnasol er mwyn rheoli pobl a allai fod yn beryglus yn effeithiol. Gan hynny, dylid rhannu gwybodaeth yn unol â Chytundebau Rhannu Gwybodaeth cyfredol o fewn cyfyngiadau Adran 115 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, y Ddeddf Diogelu Data, ac unrhyw ddeddfwriaethau perthnasol eraill.

Rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am reoli pobl a allai fod yn beryglus ystyried cydbwyso hawliau dynol y bobl a allai fod yn beryglus, sef hawl unigolyn i fywyd preifat (Erthygl 8) a'r hawl i fyw'n rhydd rhag triniaeth ddiraddiol (Erthygl 3) wedi'i gydbwyso â'r camau

cymesur y mae dyletswydd ar yr heddlu i'w cymryd er mwyn gwarchod hawl y cyhoedd i fywyd (Erthygl 2).

# 4. Opsiynau a Dewisiadau wrth Gefn

Bydd y polisi hwn yn eiddo i'r Pennaeth Amddiffyn Pobl Fregus, a bydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Ganolfan Fregusrwydd ar gyfer:

- Ei effeithiolrwydd
- Unrhyw newidiadau i reolau'r Swyddfa Gartref a chanllawiau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu
- Newidiadau mewn polisi
- Unrhyw eitemau aneffeithlon a nodwyd mewn perthynas â gweithredu

**Y Broses Gymeradwyo:** Bydd penderfyniadau cymeradwyo mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn yn cael eu gwneud gan y Pennaeth Amddiffyn Pobl Fregus a'r grŵp Bregusrwydd Strategol.

Mae polisi'r heddlu'n adlewyrchu yr Arferion Proffesiynol Awdurdodedig Cenedlaethol y Coleg Plismona ar Bobl a Allai Fod yn Beryglus yn llawn, ac mae canllawiau gweithredol ar safle mewnrwyd Heddlu Dyfed-Powys ynghyd â manylion cyswllt goruchwylydd y Ganolfan Fregusrwydd os oes angen cyngor ac arweiniad. Mae'r broses yn cael ei rheoli'n gadarn ac effeithiol gan oruchwylwyr a rheolwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth parhaus.

*Mae'r Polisi a'r canllawiau'n rhoi gwybodaeth ynghylch y canlynol:*

- Rheoli Pobl a Allai Fod yn Beryglus
- Adnabod Pobl a Allai Fod yn Beryglus
- Y broses gyfeirio
- Cyfarfodydd Rheoli Risg Lleol
- Datgelu
- Rhannu gwybodaeth
- Cofnodi a monitro achosion
- Datgofrestru PAB
- Ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae'r canllawiau a'r prosesau a nodwyd yn y polisi'n berthnasol i bob swyddog heddlu ac aelod staff heddlu sy'n gysylltiedig ag unrhyw agwedd o adnabod a chofnodi pobl a allai fod yn beryglus, ymchwilio iddynt a'u rheoli.

Mae canllawiau ar gael ar safle mewnrwyd yr heddlu ynghyd â dolen i ganllawiau Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona. Mae hyn yn galluogi gwybodaeth i fod ar gael yn hawdd i bob swyddog ac aelod staff o fewn y sefydliad. Mae manylion cyswllt hefyd ar gael ar gyfer y Ditectif Ringyll Rheoli Troseddwyr pe bai angen unrhyw gyngor/arweiniad.

**COD MOESEG**

**Bydd yr egwyddorion Cod Moeseg canlynol yn berthnasol:**

• ***Atebolrwydd*** – Byddwn yn atebol am benderfyniadau, gweithredoedd ac esgeulustod mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn.

• ***Tegwch*** – Bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu, ni waeth am hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu ryw.

• ***Gonestrwydd*** – Byddwn yn gweithredu cynnwys y polisi hwn â gonestrwydd er mwyn cynnal ffydd y gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu.

• ***Unplygrwydd*** – Byddwn yn gweithredu'r polisi hwn gan sicrhau ein bod ni'n anelu i wneud ein gorau glas i reoli'r peryglon a gyflwynir gan droseddwyr a allai fod yn beryglus.

• ***Gwrthrychedd*** – Bydd gweithredu'r polisi hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a barn broffesiynol orau.

• ***Didwylledd*** – Byddwn yn agored a thryloyw yn ein gweithredoedd a'n penderfyniadau.

• ***Parch*** – Byddwn yn trin pob aelod o'r gymuned â pharch.

• ***Anhunanoldeb*** – Byddwn yn gweithredu'n anhunanol er budd y cyhoedd.

# 5. Gweithredu ac Adolygu

Cynhelir adolygiad o'r broses PAB bob dwy flynedd er mwyn sicrhau fod y polisi'n adlewyrchu amcanion yr heddlu'n gywir o ran rheoli troseddwyr.

Bydd cymhwysedd unigolion ar gyfer PAB yn cael ei asesu'n gyson yng nghyfarfodydd MAPPA ac ar sail wythnosol gan y panel dethol amlasiantaeth, lle mae cyfeiriadau ar gyfer MAPPA a rhaglenni Rheoli Troseddwyr eraill yn cael eu sgrinio. Mae'r panel yn cwrdd yn wythnosol yn y Ganolfan Fregusrwydd ac yn cynnwys y Cydlynydd MAPPA, Ditectif Ringyll, Cydlynydd Rheoli Troseddwyr yn Integredig a rheolwr y Tîm Prawf. Mae cyfeiriadau'n cael eu hadolygu a gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng bob asiantaeth. Os yw unigolyn yn cael ei nodi fel troseddwr heb ei euogfarnu nad yw'n gymwys ar gyfer MAPPA, ond mae ymddygiad yr unigolyn yn arddangos perygl yn y dyfodol agos o niwed difrifol, gwneir argymhelliad ar gyfer PAB a gosodir camau gweithredu i reolwyr troseddwyr ddatblygu.

Mae'r Uned Cofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw'n creu pob cofnod PAB yn unol â Safonau'r Swyddfa Gartref ar gyfer troseddwyr o'r fath. Mae cofnodion pob cyfarfod yn cael eu cadw'n ddiogel ar gofnod Cofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw'r PAB.

Mae'r Uned Cofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw hefyd yn cwblhau adolygiad data bob mis. Bydd y data ar gyfer pobl a allai fod yn beryglus yn cael ei gasglu ar wahân ac ni fydd yn cael ei gynnwys yng nghasgliad data troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw, sy'n cael ei gynnwys o fewn adroddiad blynyddol MAPPA.

Disgwylir y bydd canlyniadau llwyddiannus yn cyfrannu'n sylweddol tuag at well bodlonrwydd a hyder cyhoeddus.

Cynhelir goruchwyliaeth weithredol a strategol gan y Ganolfan Fregusrwydd ac adroddir yn chwarterol i'r Grŵp Bregusrwydd Strategol er mwyn ymdrin â meysydd sy'n llwyddiannus neu feysydd sy'n achosi pryder.

Bydd cwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd i'r Adran Safonau Proffesiynol mewn perthynas â Rheoli Troseddwyr ar gyfer gorfodi'n cael eu hasesu yn erbyn y polisi Rheoli Troseddwyr a chanllawiau gweithdrefnol.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w gwarchod o dan y Ddeddf fel a ganlyn: Oedran; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhyw; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried, wrth arfer eu swyddogaethau, yr angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil: dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu sy'n berthnasol i'r nodwedd hon.

Mae cynnal **asesiad o effaith ar gydraddoldeb** yn cynnwys asesu'n systematig effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau ar bobl mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar unrhyw bolisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma.

Heddlu Police
DYFED-POWYS

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB WEDI'I GWBLHAU

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Ditectif Ringyll [redacted] |
| **Adran:** | Rheoli Troseddwyr, Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnodwyd:** | DS [redacted] |
| **Dyddiad:** | 5/7/22 |

## TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol ac fe'i hadolygwyd ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol a bernir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 20 Medi 2022 |

## COD MOESEG - TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Coed Moeseg ac fe'i hadolygwyd ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol a bernir ei fod yn cydymffurfio â'r Cod hwnnw a'r egwyddorion sy'n sail iddo.

| | | |
|---|---|---|
| **Enw:** | Ditectif Ringyll [redacted] | |
| **Adran:** | Uned Rheoli Troseddwyr, Y Ganolfan Fregusrwydd | |
| **Llofnodwyd:** | DS [redacted] | |
| **Dyddiad:** | 5/7/22 | |

## Adolygiad Cyllid Corfforaethol

Mae'r polisi hwn wedi'i adolygu gan y tîm Cyllid Corfforaethol i sicrhau defnydd effeithiol o wariant cyhoeddus, gan sicrhau'r gwerth gorau am arian.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Cyllid Corfforaethol |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 22/09/2022 |

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae adran 19 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod gofyniad ar yr Heddlu i gyhoeddi pob polisi ar wefan yr Heddlu. Polisïau yw pam rydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau yw sut rydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn amddiffyn prosesau gorfodi'r gyfraith ac ystyriaethau iechyd a diogelwch. Pan fydd dogfen bolisi a gweithdrefn gyfun yn cael ei chynhyrchu mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Heddlu gyhoeddi'r adran bolisi ac asesu'r rhan sy'n cynnwys y weithdrefn er mwyn sicrhau na chyhoeddir unrhyw wybodaeth sensitif. Yn gyffredinol, y sefyllfa ddiofyn fydd bod polisi a'i ddogfen weithdrefn ategol yn cael eu cynhyrchu ar wahân.

Mae'n ofynnol felly adolygu'r ddogfen hon i cadarnhau ei haddasrwydd i'w chyhoeddi. Nodwch isod a yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y bydd datgelu yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddiad hwnnw'n ei achosi gan amlygu'r adrannau perthnasol yn y ddogfen. Lle credir y byddai datgelu'n achosi niwed, dylid anfon y ddogfen at yr Uned Ddatgelu i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydy/Nac ydy** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydy | 5/7/22 | [redacted] |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol, rwyf wedi nodi'r adrannau nad wyf yn credu eu bod yn addas i'w datgelu ac rwyf wedi nodi isod y niwed a fyddai'n cael ei achosi wrth gyhoeddi. | | | |

**Amlinelliad o unrhyw niwed a nodwyd yn y cyhoeddiad:**

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth - i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**

(Dim ond yn ofynnol os yw'r awdur yn credu y byddai datgelu'n achosi niwed)

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydy/Nac ydy** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w datgelu yn rhannol a gwnaed y golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn ar gyfer y cyhoedd. | | | |

Ar ôl cynnal adolygiad, dylai'r Swyddog Datgelu Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen at awdur y polisi ac ar ôl ei chymeradwyo, dylid cyhoeddi'r ddogfen o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylid dwyn unrhyw newidiadau i'r ddogfen yn y dyfodol i sylw'r Uned Ddatgelu, fel sy'n briodol.

## Rheoli Fersiynau Llawn

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rhesymeg |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 23/02/21 | Y Ditectif Brif Arolygydd [redacted] | Diweddaru'r Polisi PAB |
| 2.0 | 20/09/2022 | Y Ditectif Brif Arolygydd [redacted] | Adolygiad Blynyddol |
| | | | |